# COFNOD PENDERFYNIADAU CYFARFOD PENDERFYNIADAU'R AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS OFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD

## 12FED MAI, 2015

**Swyddfa'r Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai, Neuadd y Sir, Caerfyrddin**

**1:30 P.M. – 2.00 P.M.**

| YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL | Y PORTFFOLIO |
|---|---|
| Y Cynghorydd J. Tremlett | Gofal Cymdeithasol ac Iechyd; |

**Roedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| Mr. J. Morgan | Y Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai; |
| Mr. D. Eldred | Cyfrifydd Grŵp; |
| Mr. M.S. Davies | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd. |

**DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

*Ar ôl ystyried yr adroddiadau am yr eitemau isod, a chan roi sylw i farn yr Aelodau Lleol a'r rhai oedd a wnelont â'r materion, lle'r oedd hynny'n berthnasol, gwnaeth yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol y penderfyniadau canlynol:*

| RHIF YR EITEM | Y Pwnc / Penderfyniad |
|---|---|
| 1. | **COFNOD PENDERFYNIADAU - 9FED IONAWR 2015**<br>**PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a oedd wedi ei gynnal ar 9fed Ionawr 2015, gan ei fod yn gywir.** |
| 2. | **Y TÂL SAFONOL AM OFAL PRESWYL GAN YR AWDURDOD LLEOL YN YSTOD 2015/16**<br>Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad ynghylch y tâl safonol am ofal preswyl gan yr awdurdod lleol yn ystod 2015/16.<br>Eglurodd y Cyfrifydd Grŵp fod yn rhaid i'r oedolion i gyd oedd yn derbyn llety preswyl gyfrannu at eu costau gofal. Os oedd ganddynt adnoddau digonol, roedd yn ofynnol iddynt dalu'r gost lawn am eu llety, sef y Tâl Safonol a gyfrifwyd yn flynyddol ar sail y gost lawn i'r Awdurdod o ddarparu'r llety.<br>Eglurodd taw'r ffactorau allweddol o ran pennu'r tâl safonol blynyddol oedd cyfanswm cost y gyllideb ar gyfer cynnal cartrefi preswyl yr Awdurdod, ynghyd â nifer y gwelyau oedd ar gael a faint ohonynt oedd yn llawn. Ar gyfer 2015/16 bu gostyngiad sylweddol yn nifer y gwelyau prif ffrwd (4%) ac roedd hyn, ynghyd â chynnydd yng nghostau'r staff [er bod hynny'n cael ei wrthbwyso i raddau gan arbedion effeithlonrwydd cyllidebu ar sail blaenoriaeth sef £100,000 a dim cynnydd o ran chwyddiant ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau] wedi arwain at gynnydd o 8.05% yn y tâl. Roedd y cynnydd o 1.27% yn y gyfradd ar gyfer gwelyau i henoed bregus eu meddwl yn cael ei gynnig yn sgil y cynnydd yng nghostau'r staff.<br>Mewn ymateb i ymholiad, rhoddwyd gwybod i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod y cynnydd wedi'i gynnig er mwyn adennill costau ac y byddai peidio â chyflwyno'r cynnydd hwn yn golygu y byddai angen cael cyllid o feysydd eraill.<br>**PENDERFYNWYD**<br>**2.1 bod y Tâl Safonol am gartrefi gofal preswyl i Bobl Hŷn gan yr Awdurdod Lleol yn cael ei godi o £540.37 i £583.88 am welyau Prif Ffrwd ac o £759.13 i £768.78 am welyau i Henoed Bregus eu Meddwl;**<br>**2.2 y byddai'r cyfraddau newydd yn dod i rym ar 29ain Mehefin 2015 i** |

| | |
|---|---|
| | **breswylwyr yr oedd yr Awdurdod Lleol wedi eu hanfon i'w gartrefi ei hunan ac y byddai'r cyfraddau newydd yn dod i rym ar 6ed Ebrill 2015 i breswylwyr a anfonwyd i Gartrefi'r Awdurdod Lleol gan awdurdodau lleol eraill.** |

_____________________________________________

**YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS OFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD**

____________________

**DYDDIAD**